

## “Y gynulleidfa gyfan”

“Yn awr, chwi yw corff Crist, ac y mae i bob un ohonoch ei le fel aelod.”  
(adn. 27)

### Beth am ddarllen 1 Corinthiaid 12:27–31 ac yna myfyrio

Yr ydym wedi nodi fod mesur helaeth o’r grym a ryddhawyd yn yr eglwys yn Antiochia wedi ei ryddhau gan y lleygwyr o’i mewn. Yn ôl y geiriadur, diffinnir y gair ‘lleygwyr’ fel “y corff o bobl hynny sydd yn rhoi eu gwasanaeth i fudiad crefyddol yn rhan amser”. Mae’r gair yn deillio o’r gair Groeg *laos*, gair a ddefnyddir yn aml yn y Testament Newydd i olygu ‘pobl Dduw’. Gwaith yr apostolion, y proffwydi, yr efengylwyr, y gweinidogion a’r athrawon yw arfogi pobl Dduw ar gyfer ei wasanaethu, eu dwyn i adnabod eu doniau a’u gweinidogaeth. Nid gwaith pobl Dduw, y lleygwyr, yw edrych a gwranddo, tra bod yr apostolion, y proffwydi, yr efengylwyr, y gweinidogion a’r athrawon yn gweithredu. Mae’n amlwg o fewn rhai eglwysi fod pobl yn ystyried mai gwaith y lleygwyr yw casglu, mynd â phobl i’w seddau, neu osod y llwyfan ar gyfer rhyw berfformiwr o bregethwr. Mae’r lleygwyr hefyd yn weinidogion. Yn ddiweddar, ymwelais ag eglwys oedd ar ei rhaglen wythnosol yn cyhoeddi enw pob un o’i swyddogion – y gweinidog, y gweinidog cynorthwyol, ac yn y blaen. Ar waelod y dudalen mewn print bras, roedd y geiriau “Gweinidogion – y gynulleidfa i gyd”. Mae hyn yn rhoi’r lleygwyr ynghanol gwaith yr eglwys, nid ar ymylon gwaith yr eglwys. Rhaid hyfforddi’r lleygwyr ar gyfer gwaith y weinidogaeth, nid dim ond ar gyfer unrhyw waith. Wrth gwrs, mae yna waith amrywiol sydd angen ei wneud gan rywun, ond rhaid edrych ar bob gwaith o fewn yr eglwys fel rhan o’i gweinidogaeth.

Rhaid i ni ystyried mai prif swyddogaeth y rhai yr ydym ni yn eu galw yn “weinidogion llawn amser” yw i fod yn bobl sydd yn cymell ac yn annog ac “yn *paratoi* pobl Dduw ar gyfer gweithredoedd o wasanaeth er mwyn adeiladu corff Crist”. Sylwch ar yr ymadrodd yr wyf yn ei bwysleisio, *pobl Dduw* – y lleygwyr.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Col. 3:9–17; Iago 5:9–16; 1 Pedr 1:22; 3:8; 4:8–11

### Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddylem ei wneud gyda’n gilydd?
2. Sut mae annog yr Eglwys gyfan i fod yn gydweithwyr?

### Gweddi

O Dad, mae’n drist iawn fod cymaint o’th bobl wedi eu dal mewn rhyw farweiddra, a hyd yn oed wedi eu gosod ar yr ymylon gan dy Eglwys. Mae yna lawer yn dy Eglwys sydd yn troi yn eu hunfan. Mae angen i ti ein diwygio a diwygio ein meddwl. Cynorthwya ni, o Dad. Yn enw Iesu Grist. Amen.